
Teithiau teulu gyda gwahaniaeth...

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Y Fenai, Ynys Môn

*"Mae'r Fenai yn ddarn twyllodrus o ddŵr. Mae'r llanwau gwahaniaethol ar y naill ben a'r llall yn achosi ceryntau cryf iawn i'r ddau gyfeiriad sydd, ynghyd â'r banciau tywod ansefydlog, yn ei gwneud yn un o'r darnau anoddaf o ddŵr i'w hwylio yn Ynysoedd Prydain. Edrychwch am amrywiaeth o adar môr a gwiwerod coch ar y ffordd."*

**GRUFF OWEN, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

## Dechrau/Diwedd:

Gardd Fotanegol Treborth, Bangor

## Pellter:

2 km / 1 filltir (llwybr cylchol)

## Gwybodaeth:

Dechreuwch drwy archwilio Gardd Fotanegol Treborth ym Mangor ar ochr tir mawr Pont Menai – mae llwybrau ardderchog trwy'r coetir naturiol yno. Ewch allan o'r ardd ar hyd y rhodfa a dros Bont Menai. Wedi croesi'r bont i dref brysur Porthaethwy, trowch i'r chwith o flaen tafarn yr Anglesey Arms ac ewch tuag at y Fenai. Wrth i chi weld y dŵr, trowch i'r dde i Rodfa'r Belgiaid. Yma, gallwch fwynhau profiad Realiti Estynedig gan ddefnyddio'ch dyfais symudol (ffôn clyfar neu dabled) gydag ap Llwybr Arfordir Cymru a'r panel i archwilio gwely'r Fenai a gweld llong HMS Conway yn fyw!

Ewch ymlaen lawr Rhodfa'r Belgiaid ac ewch i ymweld ag Ynys Tysilio drawiadol cyn bwrw nôl i fyny trwy Goed Cyrnol, hafan coetir Gwarchodfa Natur Leol ar gyfer gwiwerod coch, a cherddwch nôl dros Bont Menai. Beth am ymestyn eich taith drwy ymweld â Chanolfan Treftadaeth Pont Menai?

## Ar y ffordd...

Mae nifer o leoedd i fwyta ac yfed yn y dref brysur hon, yn ogystal â golygfeydd helaeth o'r Fenai a Phont Britannia, pont (i gerbydau) eiconig arall sy'n cysylltu tir mawr Cymru ac Ynys Môn.

## Cynlluniwch eich ymweliad:

**GARDD FOTANEGOL TREBORTH:** treborth.bangor.ac.uk
**CANOLFAN TREFTADAETH PONT MENAI:** menaibridges.co.uk
**TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS:** traveline.cymru
**TOURISM WEBSITE:** croesomon.co.uk

## Cyn gadael:

Lawrlwythwch ap Llwybr Arfordir Cymru er mwyn profi'r ardal mewn Realiti Estynedig.

ANDROID APP ON Google play
Download on the App Store

